**Lynne Neagle AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LN/3311/25

Owain Gethin Davies
Adnodd Cyf

Gethin.Davies@adnodd.llyw.cymru

16 Mawrth 2026

Annwyl Gethin,

**Llythyr Cylch Gwaith Adnodd 2026-27**

Rwyf wrth fy modd yn gweld Adnodd yn gwbl weithredol ac yn darparu cefnogaeth ymarferol i addysg yng Nghymru. Gan wireddu un o ymrwymiadau strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr i 'gynllunio seilwaith Cymru gyfan ar gyfer cynhyrchu adnoddau perthnasol ac amserol ar gyfer y cwricwlwm yn y Gymraeg a’r Saesneg', mae Adnodd bellach mewn sefyllfa dda i barhau i gyflawni ymrwymiadau allweddol ar gyfer addysg yng Nghymru.

Rwy'n cydnabod yr ymdrech sylweddol fu ynghlwm â rhoi Adnodd ar waith, ac rwyf am weld y cwmni yn parhau i gymryd camau breision i'w sefydlu ei hun fel y gwasanaeth naturiol i droi ato i sicrhau bod adnoddau addysgol a deunyddiau ategol dwyieithog yn cael eu darparu a'u hyrwyddo yng Nghymru.

Mae Adnodd yn llwyr atebol i Weinidogion Cymru, fel is-gwmni y maent yn berchen arno'n gyfan gwbl, sy'n gyfyngedig drwy warant. Dyma'r llythyr cylch gwaith ffurfiol a roddwyd i Adnodd ynghylch amcanion i'w cyflawni. Yn y bôn, mae'n ymestyn eich cylch gwaith blaenorol am flwyddyn arall, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bydd cylch gwaith newydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer tymor nesaf y Senedd. Mae'r llythyr cylch gwaith wedi'i ategu gan Erthyglau Cymdeithasu Adnodd, a'r Cytundeb Fframwaith rhwng Llywodraeth Cymru ac Adnodd. Y ddwy ddogfen hon, ynghyd â'r llythyr cylch gwaith hwn a'r Cynllun Busnes a Gweithredol cysylltiedig dilynol a gymeradwywyd, sy'n ffurfio'r contract rhwng Adnodd a Llywodraeth Cymru.

**Cynllun Busnes**

Bydd angen i Adnodd barhau i ddatblygu ei Gynllun Busnes, a fydd yn ystyried y Llythyr Cylch Gwaith hwn, unrhyw amcan-setliadau cyllidebol gan Lywodraeth Cymru a, lle bo'n berthnasol, yr Erthyglau Cymdeithasu a'r Cytundeb Fframwaith. Rhaid i'r Cynllun gynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd bod blaenoriaethau yn cael eu gweithredu. Disgwylir i'ch

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynllun Gweithredol gwmpasu'r holl elfennau a nodir yn y cylch gwaith hwn a'r Atodiad cysylltiedig.

Dylid amlinellu'n glir faterion Llywodraethiant a Chorfforaethol, gan gynnwys:

- Llywodraethiant Corfforaethol (gan ystyried canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Cytundeb Fframwaith, gan gynnwys y cod ymddygiad ar gyfer aelodau Bwrdd Adnodd);
- Datblygiadau corfforaethol/sefydliadol gan gynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth, y Gymraeg, iechyd a diogelwch, sicrhau ansawdd a chyfathrebu/marchnata;
- Ystyriaethau gwerth am arian;
- Staffio ac adnoddau.

Dylid cyflwyno Cynllun Busnes 2026-27 i swyddogion i'w gytuno cyn diwedd chwarter 1 (30 Mehefin 2026).

**Blaenoriaethau Strategol**

Mae'r blaenoriaethau strategol a nodir yn y llythyr hwn yn ymwneud â 2026–27. Rwy'n disgwyl i'r rhain aros yr un fath, fwy neu lai, ond gall yr is-amcanion ddatblygu a newid dros amser. Nodir y manylion yn Atodiad A. Bydd y llythyr cyllid blynyddol yn gyfle i adolygu'r amcanion, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau sy'n codi, a bod y lefel ariannu yn briodol. Bydd angen i Adnodd, ynghyd â holl gyrff eraill Llywodraeth Cymru, gyfrannu hefyd at nodau ehangach Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a'r Strategaeth Genedlaethol i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd.

**Dyraniad cyllid**

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27, fel y'i nodir yn eich Llythyr Cyllid ar gyfer 2026-27, bydd cyllideb adnodd o £4,974,194 ar gael i Adnodd i gefnogi'r amcanion hynny. Er y gallai'r swm hwn newid, gallwch ei ddefnyddio fel amcan i lywio eich cynllunio a'ch rhagolygon ar gyfer blynyddoedd ariannol i ddod.

**Adrodd / pwynt cyswllt yn Llywodraeth Cymru**

Dirprwy Gyfarwyddwr Cwricwlwm ac Asesu fydd yn arwain eich perthynas â Llywodraeth Cymru, a'ch pwynt cyswllt arferol o fewn y Tîm Partneriaeth fydd y Pennaeth Cyflawni Polisi. Bydd angen cynllun busnes drafft ar y Tîm Partneriaeth erbyn 30 Mehefin, a bydd ganddo hyd at bythefnos wedyn i'w adolygu a darparu adborth, ac i awgrymu newidiadau posibl. Bydd y cynllun busnes yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol ar ddiwedd y bythefnos hon erbyn 14 Gorffennaf.

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

## Adnodd
## Blaenoriaethau strategol 2026 – 2027:

### 1. Datblygu gallu corfforaethol Adnodd

**Amcanion penodol ar gyfer 2026-27:**

a. Cynnal trefniadau llywodraethiant corfforaethol effeithiol sy'n adlewyrchu gofynion Deddf Cwmnïau 2006, yr Erthyglau Cymdeithasu a'r Cytundeb Fframwaith, megis cynlluniau dirprwyo, polisïau statudol perthnasol, a pholisïau caffael.

b. Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r holl gwmnïau sy'n perthyn i'r Llywodraeth weithredu yn unol â'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddwch yn adrodd i'ch Tîm Partneriaeth ar y ffordd y mae Adnodd yn defnyddio'r pum ffordd o weithio, sut y mae'n cyfrannu at gyflawni'r saith nod llesiant, a sut y bydd ei ddull gweithredu yn datblygu bob blwyddyn. https://futuregenerations.wales/cym/darganfod/cenedlaethaur-dyfodol-cymru/deddf-cenedlaethaur-dyfodol-2015/

**c.** Wrth ddatblygu amcanion, dylid ystyried strategaeth Cymraeg 2050, Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 a basiwyd yn ddiweddar a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo ers talwm i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, ac mae deddf arloesol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn dyst i hynny, ynghyd â'n Strategaeth Genedlaethol ar gyfer 2022-26.

d. Cynnal swyddogaethau a gwasanaethau busnes hanfodol cymesur i sicrhau gweithrediad effeithiol y cwmni.

e. Cynnal trefniadau rheoli ariannol, gan gynnwys amcan o'r llif arian a rhagolwg o alldro'r adnodd ar gyfer y cyfnod 12 mis sydd dan sylw yn y llythyr hwn.

f. Cynnal gwefan gorfforaethol ar gyfer Adnodd a pharhau i sicrhau presenoldeb ymatebol ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

### 2. Sicrhau bod adnoddau a deunyddiau ategol perthnasol, amserol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar yr un pryd, i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru a'i gymwysterau

**Amcanion penodol ar gyfer 2026-27:**

a. Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i gynnal y ddealltwriaeth o anghenion y gynulleidfa o ran comisiynu a darparu adnoddau, h.y. nodi anghenion, fformat adnoddau ac ati.

b. Parhau i ymgysylltu â Chymwysterau Cymru a chynnal perthynas waith â nhw a chyrff dyfarnu ynghylch adnoddau gofynnol ar gyfer cymwysterau.

c. Ymgysylltu â Dysgu, y corff dysgu proffesiynol ac arweinyddiaeth newydd ar gyfer Cymru, i gael dealltwriaeth o anghenion y sector ac i sicrhau cysondeb clir wrth ddatblygu adnoddau.

d. Ymgysylltu â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y sefydliad arweiniol ar gyfer y sector Dysgu Cymraeg, i gynllunio'r cymorth sydd ei angen i weithredu Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru). Yn benodol, adnoddau mewn perthynas â'r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg (sydd i'w gyhoeddi yng ngwanwyn 2027) i gefnogi ysgolion i gyflawni eu nodau o ran dysgu Cymraeg.

e. Ymgysylltu â sefydliadau sy'n cael eu hariannu drwy raglen cymorth grant y Cwricwlwm i Gymru yn ôl yr angen, i sicrhau bod yr adnoddau a ddatblygir fel rhan o'r cymorth hwnnw yn ateb y galw.

3. **Darparu fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer comisiynu, datblygu a chynhyrchu adnoddau, gan sicrhau bod yr adnoddau yn unol ag ethos ac egwyddorion craidd y Cwricwlwm i Gymru a'u bod yn ateb y galw**

   **Amcanion penodol ar gyfer 2026-27:**

   a. Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol a chynulleidfaoedd er mwyn deall y ffordd orau o sicrhau ansawdd adnoddau, a sut y gall ymarferwyr yn arbennig gefnogi'r broses hon a chyfrannu ati, i wneud yn siŵr bod adnoddau a gomisiynir yn ateb y galw ac yn addas i'w hanghenion.
   b. Parhau i brofi a datblygu fframwaith sicrhau ansawdd yn seiliedig ar fewnwelediad a ddarperir drwy'r broses ymgysylltu, sy'n sicrhau bod adnoddau a deunyddiau ategol:
      i. yn adlewyrchu'r egwyddorion a nodir yn y canllaw adnoddau a deunyddiau ategol a gyd-luniwyd ac a gyhoeddwyd ar Hwb
      ii. yn unol ag ethos ac egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru
      iii. yn cael eu hadolygu a'u cadw'n berthnasol.

4. **Hybu'r gwaith o hyrwyddo adnoddau, codi ymwybyddiaeth ohonynt a'u defnyddio'n effeithiol.**

   **Amcanion penodol ar gyfer 2026-27:**

   a. Ymgysylltu â thimau cyfathrebu a pholisi Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill i gefnogi cyfathrebu effeithiol ynghylch yr adnoddau a ddarperir i'r sector, ac i'w hyrwyddo.
   b. Gweithio gyda swyddogion dysgu digidol Llywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o barhau i ddatblygu platfform Hwb fel y gwasanaeth naturiol i droi ato i ymarferwyr sy'n chwilio am gefnogaeth, adnoddau ac ysbrydoliaeth i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.
   c. Datblygu a gweithredu eich cynllun strategol ymgysylltu a chyfathrebu fel rhan o'ch gweithgarwch busnes.
   d. Cynnal model comisiynu priodol, ar sail cydadeiladu, sydd:
      i. yn adlewyrchu ac yn diwallu anghenion y sector addysg a rhanddeiliaid allweddol
      ii. yn sicrhau gwerth am arian
      iii. yn gwneud y defnydd gorau o'r arbenigedd, y wybodaeth a'r sgiliau sydd ar gael yng Nghymru
      iv. yn alinio cydberthnasau a dulliau gweithredu sydd eisoes yn bodoli ar draws y sector addysg, ac yn manteisio arnynt.

5. **Datblygu a buddsoddi mewn sgiliau a'r gallu i greu, rhannu a chyhoeddi adnoddau addysgol yng Nghymru .**

   **Amcanion penodol ar gyfer 2026-27:**

   a. Gan adeiladu ar lwyddiant cronfa Cydweithredu ac Arloesi yn 2025-26, parhau i gefnogi, annog ac ariannu dulliau a syniadau arloesol a fydd yn datblygu ystod y crewyr cynnwys yng Nghymru.
   b. Drwy eich dull comisiynu a'ch gwaith gyda sefydliadau partner, parhau i ddatblygu eich perthynas â chyhoeddwyr, datblygwyr a chrewyr cynnwys i helpu i gefnogi cynllunio cynaliadwy a buddsoddi mewn sgiliau a chapasiti yng Nghymru.